NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ustekinumab ar gyfer clefyd Crohn cymedrol i ddifrifol weithredol ar ôl triniaeth flaenorol

12 Gorffennaf 2017

Mae ustekinumab ar gael ar y GIG fel triniaeth ar gyfer clefyd Crohn cymedrol i ddifrifol weithredol mewn oedolion. Caiff ei ddefnyddio os nad yw therapïau anfiolegol nac atalyddion alffa ffactor necrosis tiwmor (TNF) yn addas neu os nad ydynt wedi gweithio'n ddigon da.

Os nad ydych yn gymwys i gael ustekinumab, ond rydych eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

### *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Crohn's and Colitis UK, 0300 222 5700
- Bladder and Bowel Community, 0192 635 7220
- CIRCA - Children with Crohn's and Colitis Association, 0208 949 6209

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2557-5

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights